dawelwch. Mae safle'r cais wedi'i leoli mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Llynedd, defnyddiodd perchnogion y tir y tir ar gyfer pebyll dan y rheol cynllunio dros dro 28 diwrnod. Methodd yr ymgeiswyr â chydymffurfio â'r rheol dros dro 28 diwrnod, gan ddefnyddio'r tir am dros 60 diwrnod. Roedd y sŵn o'r safle'n anhygoel a gellid clywed cerddoriaeth uchel, gweiddi a phobl yn yfed yn dod o'r safle rhwng 2 a 3 o'r gloch y bore. Roedd y traffig ychwanegol a gynhyrchwyd gan y maes pebyll y llynedd ar y lôn gul, ddi-ddosbarth gan y maes pebyll yn anhygoel. Mae'r cais cynllunio a gyflwynwyd yn datgan y bydd ceir yn cael mynediad i'r safle o'r briffordd ac yn gadael ar y lôn ddi-ddosbarth sydd union gyferbyn â'r eiddo o'r enw 'Rushmead'. Mae lleoliad y safle hwn yn golygu y bydd pobl yn ddibynnol ar geir preifat i deithio gan nad oes cludiant cyhoeddus yn yr ardal. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar fwynderau'r eiddo hwn gan y bydd llif cyson o draffig yn gadael y safle, ynghyd â goleuadau prif lampau ceir yn y nos.

Yn ddamcaniaethol, fel enghraifft, os bydd 30 o wersyllwyr ar y safle ar unrhyw adeg, bydd hyn yn cynhyrchu hyd at 90 o deithiau mewn cerbydau bob dydd ar y lôn gul, ddi-ddosbarth, o ganlyniad i wneud nifer o deithiau bob dydd i'r siopau / y traeth / atyniadau lleol a theithiau gyda'r nos i gael pryd nos / mynd i fwytai yn yr ardal. Mae hyn wrth dybio na fydd y cerbydau'n dechrau defnyddio'r allanfa fel llwybr mynediad / mynedfa yn hytrach na'r fynedfa a awgrymir o briffordd yr A4080. Mae'r cynnig yn golygu lledu'r fynedfa bresennol i gerbydau sy'n gadael y safle a chael gwared â 68 metr o wrychoedd sydd eisoes yn bodoli i greu llain welededd. Bydd hyn yn golygu cael gwared â gwrych sy'n sgrinio'r safle'n naturiol. Wedi hynny byddai'r safle'n hynod o weladwy ac o fewn tua 30m i brif ddrychiadau eiddo preswyl cyfagos a byddai'r llygredd sŵn hyd yn oed yn waeth nag yr oedd dan y rheol dros dro a rhaid i mi bwysleisio fod y sŵn yn annioddefol gyda'r gwrych yn ei le. Mae Polisi Cynllunio PCYFF2 yn datgan y dylid gwrthod unrhyw gais a fyddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau eiddo preswyl cyfagos.

Mae safle'r cais mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac yn enwog am ei harddwch a'i dawelwch. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith negyddol ar yr AHNE a byddai sŵn a gynhyrchir ar y safle'n cael effaith ar dawelwch naturiol yr ardal. Byddai cael gwared â 68m o wrychoedd sydd eisoes yn bodoli yn agor y safle a byddai'n andwyol i'r AHNE.

Nid yw'r safle hwn yn un o ansawdd uchel gan na chyfeirir at faint o bebyll a osodir ar y safle ac ni ddarparwyd unrhyw osodiad gyda'r cais cynllunio. Llynedd, roedd y safle'n edrych fel golygfa o ŵyl Glastonbury, gyda phebyll o bob maint, siâp a lliw wedi eu gwasgaru ar hap ymhobman. Ni chyfeirir at unrhyw gynigion tirlunio nac at unrhyw fath o driniaeth i derfynau safle'r cais. Pe byddai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu, beth fyddai'n eu hatal rhag defnyddio gweddill y cae ar gyfer gwersylla? Hoffwn dynnu sylw at y ffaith fod o leiaf 6 o gyfleusterau ar gyfer carafanau/pebyll o fewn radiws o filltir i safle'r cais. Mae un safle carafanau, a elwir yn 'Marram Grass', drws nesaf i'r safle hwn felly pam fod angen 7fed safle pebyll?

Roedd safle'r cais ar werth rhai blynyddoedd yn ôl; fodd bynnag, ni chafodd ei werthu gan na lwyddwyd i sicrhau'r pris yr oeddent yn dymuno ei gael amdano. Mae'r ymgeisydd yn ceisio cael caniatâd cynllunio yn fwriadol i wneud elw ariannol wrth werthu'r eiddo a'r tir. Mae dau feddiannydd lleol yn Pen Lon yn ymwybodol fod rhiant yr ymgeisydd wedi dweud 'mae'n ddiwerth fel tir amaethyddol, ond unwaith y caf ganiatâd cynllunio bydd o werth ffortiwn'. Rydym yn cymell y pwyllgor cynllunio i ddilyn argymhelliad y swyddogion a gwrthod y cais cynllunio. Byddai safle pebyll ar y safle hwn yn dinistrio cymuned Pen Lon, byddai'n cael effaith negyddol ar ein lles. Mae'r cais cynllunio'n groes i nifer o bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bydd yn cael effaith ar yr AHNE. Rydym yn ofni y byddai caniatáu / cymeradwyo datblygiad posib o'r fath yn annog ehangu'r safle yn y dyfodol neu'n annog cynnig llawer mwy am "barc tebyg i Haven", gan ddinistrio'r ardal yn llwyr. Gallai hyn hefyd agor y drysau i geisiadau eraill yn yr ardal yn y dyfodol a chreu cynsail. Rydym yn annog y pwyllgor i ddarllen yr holl lythyrau ac e-byst gan bobl leol yn gwrthwynebu'r cais gan ei fod yn bwysig iawn i ddyfodol yr ardal.'

Derbyniwyd llythyr gan yr ymgeiswyr, Mr Terry Usher a Mrs Jane Usher, yn cefnogi eu cais. Darllenwyd y llythyr i'r Pwyllgor, fel a ganlyn:-

'Symudom i ymuno â'n teulu yn Niwbwrch, wedi i fy mam gael ei gadael ar ei phen ei hun yma ar ôl marwolaeth fy nhad. Mae'r eiddo wedi bod yn y teulu am bron i 100 mlynedd, ac felly byddem wedi bod yn drist iawn o orfod ei werthu. Fodd bynnag, roedd rhaid i ni sicrhau y byddem yn gallu cynnal ein hunain yn ariannol, ac roedd y syniad o redeg safle gwersylla bychan i'n helpu i gyflawni hynny yn syniad a oedd yn ein cyffroi'n fawr. Mae gan y ddau ohonom swyddi rhan amser. Rydw i'n Gynorthwyydd Gofal Plant ym Meithrinfa Prifysgol Bangor ac mae fy ngŵr yn yrrwr danfon nwyddau groser i gartrefi.

Ar ôl gwneud rhywfaint o ymchwil, rydym wir wedi ceisio sicrhau y gallwn lynu at y canllawiau a nodir ym Mholisïau TWR 3 a TWR 5; dim gormod o ardaloedd llawr caled, defnyddio adeiladau presennol, defnydd gwyliau yn unig, ac ati. Fel datblygiad ar gyfer pebyll yn unig, rydym yn teimlo ein bod yn cwrdd yn llawn â phob un o'r gofynion hyn. Cawsom arolwg ecolegol a ddaeth i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith fyddai'r math o ddatblygiad yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ei gael ar yr amgylchedd.

Lle bynnag yr oedd yn bosib, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith y gallai'r newid defnydd ei gael ar eiddo cyfagos, drwy symud lleoliad y cae gwersylla o'r lleoliad arfaethedig gwreiddiol, fel nad yw'n union gerllaw Pen Lon bellach, gan greu rhyw fath o 'glustog' rhwng y cae gwersylla a Phen Lon. Rydym eisiau bod yn gymdogion da, a byddem yn gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau gyda'n cymdogion, pe byddai unrhyw rai'n codi.

Gan fod y datblygiad arfaethedig ar gyfer pebyll yn unig nid oes unrhyw gynlluniau i osod pwyntiau cysylltu â chyflenwad trydan, a byddai hyn yn amlwg yn fwy cyfeillgar o safbwynt ecolegol ac amgylcheddol.

Roedd yr adborth a gawsom y tymor diwethaf yn dangos fod pobl wir yn hoffi'r ffaith fod y safle ar gyfer pebyll yn unig. Rydym yn hapus iawn felly o gael hyn

fel ein pwynt gwerthu unigryw, gan fod cymaint o safleoedd eraill yn rhoi blaenoriaeth i garafanau teithio a chartrefi modur. Rydym yn hapus i barhau gyda'r trefniant â ffermwyr lleol i ddefnyddio'r tir fel tir pori yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd y safle ar gau. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a'r economi ehangach. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn hyrwyddo'r ardal ac yn cefnogi atyniadau ymwelwyr eraill.

Mae Cynghorydd lleol a rhai aelodau o Gyngor Cymuned Rhosyr yn cefnogi'r datblygiad arfaethedig. Rydym wedi cael llythyrau o gefnogaeth gan amryw o fusnesau lleol a deiseb yn cefnogi'r cais gan nifer fawr o bobl leol. Rhoddwyd y rhain i gyd i'r Cynghorydd lleol ond gellir darparu manylion i chi os oes angen.

Rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn anorfod fod bwriadau pobl yn cael eu camddehongli mewn cymuned fechan fel ein cymuned ni ac yn sicr rydym wedi clywed rhai dehongliadau creadigol iawn o'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud. Gallwn eich sicrhau mai ein unig fwriad yw gwneud yr hyn a nodir yn ein cais cynllunio, sef safle gwersylla sylfaenol, tymhorol ar gyfer pebyll yn unig, wedi'i reoli gennym ni ac yn eiddo i ni. Yn gyffredinol, teimlwn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn ased i Niwbwrch a'r ardal o gwmpas, ac yn ei ddangos mewn goleuni cadarnhaol iawn ac yn cynhyrchu canlyniadau da ar y cyfan ar gyfer ystod eang o bobl a'r ardal.'

Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers, fel Aelod Lleol, ei fod yn llwyr gefnogi'r cais gan mai unig ddymuniad yr ymgeisydd yw cael safle ar gyfer pebyll yn unig ac y byddai'n ased i'r ardal a bod busnesau lleol yn cefnogi'r cais. Cyfeiriodd at y sylwadau yn y llythyr yn erbyn y datblygiad yn datgan y byddai'n rhaid i bobl sy'n defnyddio'r safle gwersylla ddefnyddio eu ceir i deithio o amgylch yr ardal. Dywedodd y Cynghorydd Rogers fod pobl yn mwynhau cerdded ac nad ydynt yn ddibynnol ar eu ceir. Ychwanegodd fod yr ymgeisydd wedi newid manylion y cynlluniau wedi i gyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben ym mis Chwefror 2020 ar ôl i'r cais gael ei wrthwynebu. Ar ôl newid y cynlluniau, dim ond 3 gwrthwynebiad a dderbyniwyd ac nid oedd yr un o'r ymgyngoreion statudol yn gwrthwynebu'r datblygiad. Dywedodd y Cynghorydd Rogers y dylid cefnogi'r ymgeiswyr gan fod aelodau eu teulu wedi bod yn aelodau gweithgar o gymuned Niwbwrch dros y blynyddoedd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais yn ymwneud â newid defnydd tir i fod yn safle gwersylla i'w ddefnyddio ar gyfer pebyll yn unig rhwng y Pasg a mis Hydref yn ystod unrhyw flwyddyn galendr. Roedd y cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd yn cynnig system un ffordd, gyda cherbydau'n cael mynediad i'r safle drwy fynedfa bresennol i gerbydau ar yr A4080, ac yn cael mynediad i'r cae amaethyddol drwy dir sydd dan reolaeth yr ymgeisydd. Byddent wedyn yn gadael y safle gan ddefnyddio'r lôn i'r gorllewin. Nodwyd nad oedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi gwrthwynebu'r cynnig i greu system un ffordd, pe gosodwyd amodau ar y caniatâd. Fodd bynnag, dywedodd yr ystyrir bod y cynnig yn annerbyniol oherwydd nid ystyrir ei fod o ansawdd uchel yn nhermau'r hyn a ddisgwylir dan bolisïau cynllunio perthnasol, gan y byddai'n cael effaith annerbyniol ar yr AHNE, mwynderau preswyl ac ar sail

**ymestyn cyfnod gweithredu'r datblygiad am dair blynedd arall (hyd at 13 Gorffennaf 2023) ar hyd yr A5024 rhwng y Gyffordd ar yr A5 i'r Dwyrain o'r Fali i Orsaf Bŵer Cemaes.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod y cais yn cynnwys tir y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn berchen arno.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y cynnig ar gyfer amrywio Amod (01) cais cynllunio 7C106E/FR/ECON i ymestyn cyfnod gweithredu'r datblygiad am 3 blynedd arall (hyd at 13 Gorffennaf, 2023). Gohiriwyd Prosiect Wylfa Newydd ar 17 Ionawr, 2019 ac o'r herwydd nid yw'r ymgeisydd wedi gallu gweithredu'r caniatâd cyn iddo ddod i ben ar 13 Gorffennaf 2020. Disgwylir i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wneud penderfyniad ar Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Wylfa Newydd ar 30 Medi 2020. Os caniateir y DCO ar 30 Medi, 2020, bydd gan yr ymgeisydd 6 mlynedd i weithredu'r caniatâd. Mae Strategaeth Fesul Cyfnod y DCO, sy'n rhan o gyfres o Ddogfennau Rheoli'r DCO, yn cadarnhau y bydd rhaid gwneud y gwelliannau oddi ar lein i'r briffordd yn ystod 2 flynedd gyntaf y cyfnod gweithredu. Mae'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y DCO yn seiliedig ar gwblhau'r gwaith ar-lein cyn gweithredu'r gwaith oddi ar-lein. Mae gwaith i wella priffordd yr A5025 yn hanfodol i liniaru'r cynnydd posib mewn traffig yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd, cyn ac yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd y gwaith arfaethedig hefyd yn sicrhau gwelliannau y mae wir eu hangen i'r briffordd bresennol. Er bod y cynnig union yr un fath â'r hyn a gymeradwywyd yn 2018, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cynllunio yr ymgynghorwyd yn eang ag ymgyngoreion statudol, preswylwyr lleol a chymunedau lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John Griffiths at adroddiad y Rheolwr Polisi a Strategaeth sy'n amlygu pryderon y Cyngor Sir ynghylch y strategaeth liniaru ar gyfer yr Iaith Gymraeg; newidiwyd y geiriau a ddefnyddiwyd ac maent yn wannach gan eu bod yn sôn am ystyriaeth yn hytrach nac ymrwymiad. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod rhagor o waith wedi cael ei wneud ers cymeradwyo'r cais yn 2018 a dywedodd fod y strategaeth yn cyfeirio at Brosiect Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chyfeirio'n benodol at y cais hwn. Mae'r ymgeisydd wedi gwneud gwaith ychwanegol ar y cais hwn mewn ymateb i Adroddiad y Rheolwr Polisi a Strategaeth ac mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cadarnhau fod y gwaith ychwanegol yn bodloni gofynion y Canllaw Cynllunio Atodol 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Dywedodd y Swyddog Achos Arweiniol, Prosiectau Mawr (Amgylchedd) fod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cydnabod hefyd y gyfres o amodau yn gysylltiedig â'r caniatâd a bydd angen i Bŵer Niwclear Horizon ddarparu gwybodaeth bellach i'w chymeradwyo ynglŷn â mesurau i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg cyn y gellir cychwyn unrhyw waith ar y safle.

Dywedodd y Cynghorydd John Griffiths fod pryderon lleol y bydd lonydd cefn gwlad yn cael eu defnyddio i osgoi unrhyw waith ar yr A5025. Dywedodd y Cadeirydd fod caniatâd cynllunio eisoes wedi ei roi i'r cais a bod y cais hwn ar gyfer estyniad o 3 blynedd yng nghyfnod gweithredu'r datblygiad.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn tair ffordd. Cyhoeddwyd hysbysiad mewn papurau lleol ac anfonwyd hysbysiadau personol at feddianwyr eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau fydd 08.09.20. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid yw'r adran wedi derbyn yr un sylw.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

21C171 Cais llawn ar gyfer trosi adeilad allan yn 4 annedd gan gynnwys addasiadau ac estyniadau, gosod gwaith trin paced ynghyd â gwelliannau i'r fynedfa amaethyddol bresennol a mynediad at yr adeilad yn Tyddyn Llywarch – cymeradwywyd 18/08/2016

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Cydymffurfiaeth â pholisïau'r cynllun datblygu mewn perthynas â throsi adeiladau yng nghefn gwlad i ddefnydd preswyl – mae'r adeilad y mae'r cais hwn yn ymwneud ag o wedi'i leoli yn y cefn gwlad dan ddarpariaethau PCYFF1 y CDLLC. Dan y cynllun datblygu blaenorol, caniatawyd trosi adeiladau oedd eisoes yn bodoli yn y cefn gwlad i ddefnydd preswyl, fel yn y cais hwn, yn amodol ar y meini prawf a restrwyd. Mabwysiadwyd y CDLLC ar 31.07.17 gan ddisodli'r cynllun datblygu blaenorol. Dan ddarpariaethau polisi TAI 7 (Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl) y CDLLC, caniateir trosi adeiladau ar gyfer defnydd preswyl dim ond lle darperir tystiolaeth nad yw defnydd cyflogaeth o'r adeilad yn hyfyw ac yn yr achos hwnnw, dim ond i ddarparu tŷ fforddiadwy neu fel elfen israddol ynghlwm â chynllun ehangach. Nid yw'r cais cynllunio sy'n destun yr adroddiad hwn yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion hyn ac felly cafodd ei hysbysebu fel cais sy'n groes i'r cynllun datblygu presennol, sef y CDLLC.

Cyfreithlondeb y datblygiad a weithredwyd - Mae'r ffurflen gais yn datgan fod y datblygiad wedi cychwyn ar 01.07.20, sydd o fewn y cyfnod statudol o bum mlynedd ar gyfer caniatâd cynllunio 21C171, ond ar hyn o bryd mae'n torri amodau cynllunio (08) (Cynllun draenio), (09) (Cynllun rheoli traffig adeiladu), (12) (cofnod ffotograffig) a (13) (Trwydded rhywogaeth a warchodir). Gan nad yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r CDLLC, fel y disgrifir uchod, ni ellir ond ystyried ei fod yn dderbyniol os cafodd caniatâd cynllunio 21C171 ei weithredu'n gyfreithlon a bod sefyllfa y gelwir yn "sefyllfa wrth gefn" yn bodoli wedyn. I benderfynu a yw'r datblygiad a weithredwyd yn gyfreithlon, rhaid ystyried cyfraith achos amrywiol y gellir tynnu'r pwyntiau canlynol ohonynt a'u cymhwyso mewn trefn ddilyniannol:

1. A yw'n rhag-amod o ddatblygiad cyfreithlon ac, os ydyw, a gydymffurfiwyd â hynny;
2. Os na fu cydymffurfiaeth, a all y datblygwr ddangos fod un o'r eithriadau a gydnabyddir mewn cyfraith achos yn berthnasol, er enghraifft, os nad yw'r amod a dorrwyd yn ganolog i'r datblygiad nid yw methu â chydymffurfio â'r amod hwnnw'n golygu fod y datblygiad yn anghyfreithlon.
3. A fyddai modd cynnal adolygiad barnwrol ar benderfyniad i gymryd camau gorfodi e.e. oherwydd y byddai'n afresymol neu'n cam-drin pŵer.

O ran y maen brawf cyntaf, mae'r holl amodau cynllunio yn rhag-amodau na chydymffurfiwyd â nhw. Gan symud ymlaen at amod 13 (Trwydded rhywogaeth a warchodir) gellir ystyried ei fod yn ganolog ond, fel yr esboniwyd yn sylwadau Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor, rhoddwyd Trwydded Rhywogaeth a Warchodir sy'n golygu nad oes angen yr amod cynllunio hwn mwyach.

A yw'r wybodaeth a gyflwynwyd i ryddhau'r amodau cynllunio'n dderbyniol – Felly, nid oes angen cymhwyso'r trydydd maen prawf wrth ystyried cyfreithlondeb caniatâd cynllunio 21C171. Cyflwynwyd gwybodaeth gyda'r cais cynllunio hwn i reoleiddio'r amodau cynllunio hyn (08) (Cynllun draenio), (09) (Cynllun rheoli traffig adeiladu), (12) (Cofnod ffotograffig) ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn disgwylir sylwadau ynghylch a ydynt yn dderbyniol, er bod GCAG wedi codi cwestiynau sy'n cael eu hystyried ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.


**Pwyllgor Cynllunio:** 02/09/2020 **12.1**

**Rhif y Cais: HHP/2020/114**

**Ymgeisydd:** Pennaeth Gwasanaethau Tai / Head of Housing Services

**Bwriad:** Cais llawn ar gyfer dymchwel estyniad cefn presennol ac adeiladu estyniad cefn newydd hefo addasu ac ehangu yn / Full application for demolition of existing rear extension and erection of a new rear extension together alterations and extensions at

**Lleoliad:** 23 Craig Y Don, Amlwch




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Huw Rowlands)**

**Argymhelliad:** Caniatáu / Permit

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Rheolwr Datblygu Tai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gwneud y cais.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r cynnig ar gyfer adeiladu estyniad un llawr a gwneud addasiadau mewnol i sicrhau bod modd cael mynediad i'r annedd gyda chadair olwyn a bod yr eiddo cyfan yn addas ar gyfer anghenion yr ymgeisydd. Bydd yr estyniad arfaethedig yng nghefn yr eiddo yn cynnwys ystafell wely newydd ar y llawr isaf gydag ystafell ymolchi 'en-suite' gyda chawod mynediad gwastad. Bydd llwybr concrit a ramp newydd yn yr ardd flaen yn arwain at bortsh newydd â tho arno yn ogystal ag yn yr ardd gefn er mwyn hwyluso mynediad.

**Mater(ion) Allweddol**

Y prif fater yw a ystyrir fod dyluniad y cynllun yn dderbyniol o ran lleoliad y safle, a yw’r cynnig yn addas ar gyfer y preswylydd, yr effaith ar yr eiddo a’r effaith ar fwynderau lleol.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
CCA – Canllawiau Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig

**Ymateb i’r Ymgynghoriad a’r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Cynghorydd Richard Owain Jones | Dim Ymateb |
| Cynghorydd Aled Morris Jones | Dim Ymateb |
| Cynghorydd Richard Griffiths | Dim Ymateb |
| Asiantaeth y Bibell Brydeinig / British Pipeline Agency | Nid effeithir ar bibellau |
| Cyngor Tref Amlwch Town Council | Dim Ymateb |

Hysbysebwyd y cynnig trwy ddosbarthu llythyrau hysbysu personol i drigolion eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf i dderbyn unrhyw gynrychiolaeth oedd 16/07/2020. Ni dderbyniwyd unrhyw llythyr cynrychiolaeth yn yr adran cyn i'r adroddiad hwn gael ei greu

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae’r annedd yn cael ei addasu a’i ymestyn gan CSYM ar gyfer anghenion penodol teulu lleol. Canllawiau Cynllunio Atodol Nodyn 11: Hygyrchedd - Mae’n hanfodol fod datblygiad yn ystyried gofynion plant ifanc iawn, pobl oedrannus iawn, defnyddwyr pramiau a chadeiriau olwyn, pobl anabl sy’n gallu cerdded a rhai sydd â nam ar y golwg a nam ar y clyw. Cyflwynodd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 gyfreithiau a mesurau newydd i hyrwyddo amgylchedd hygyrch i bawb. Dylid amlinellu llwybrau’n glir a ni ddylai’r rhedfa fod yn rhy serth na chynnwys stepiau, bod yn ddigon llydan, osgoi rhwystrau diangen a lleihau’r pellter y mae’n rhaid ei deithio e.e. o safleoedd bysiau, wrth lecynnau parcio, ac ati. Dylai adeiladau newydd ymateb i gyfleoedd y safle, bod yn hygyrch i bawb a bod modd eu haddasu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Mae ôl-troed yr estyniad yn debyg iawn i’r estyniad presennol, felly asesir na fydd problem o ran gorddatblygu’r safle o ganlyniad i’r cynnig hwn. Mae’r datblygiad arfaethedig yn israddol i’r eiddo presennol o ran ei raddfa a’i faint ac nid yw’n dominyddu’r drychiad gwreiddiol, felly mae’n addas i’r annedd a’r ardal o’i amgylch. Gan fod estyniad cefn ar yr eiddo’n barod gyda ffenestri’n edrych tua’r gorllewin (gan fod ffenestri’n edrych tua’r gorllewin ar yr estyniad arfaethedig hefyd) ystyrir na fydd unrhyw gynnydd yn effaith edrych dros eiddo cyfagos. Bydd y drws cefn yn un y gellir mynd drwyddo gyda chadair olwyn ac â throthwy isel. Mae’r deunyddiau a ddewiswyd yn rhai o ansawdd uchel ac yn fodern ac fe’u dewiswyd yn ofalus i gyd-fynd â’r eiddo presennol. Bydd to'r portsh yn cael ei orchuddio â theils (i gyd-fynd â’r to presennol) a’r ffenestri a’r drysau’n rhai uPVC (i gyd-fynd â’r rhai presennol). Mae’r to yn do fflat ond bernir ei fod yn dderbyniol gan ei fod yn well na’r hyn sydd yno ar hyn o bryd gan ddefnyddio to perfformiad uchel un haen gyda chaeadau plwm i ddraenio. Derbyniwyd gwybodaeth ddraenio ac ystyrir ei fod yn dderbyniol.

